**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**CYPE(5)-17-19 - Papur i'w nodi 1**

**Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Mai 2019

Annwyl Lywydd

**Y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

Ysgrifennais atoch ar **14 Mawrth** i gytuno mewn egwyddor ar yr amserlen ar gyfer y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Ar y pryd, nodais fod y Pwyllgor yn fodlon cytuno ar yr amserlen mewn egwyddor, ond efallai y bydd angen iddo'i hailystyried oherwydd nifer yr ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil. Daeth ein hymgynghoriad i ben ar 14 Mai a chawsom 655 o ymatebion, sydd gryn dipyn yn uwch nag a ddaw i law fel arfer.

Er mwyn ein galluogi i roi sylw digonol i safbwyntiau'r holl ymatebwyr, byddem yn ddiolchgar pe bai modd cael estyniad o bythefnos i baratoi ein hadroddiad Cyfnod 1 (o ddydd Gwener 19 Gorffennaf i ddydd Gwener 2 Awst 2019). Byddai hynny'n sicrhau y bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i osgoi unrhyw oedi yn y drafodaeth ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn, a drefnwyd ar gyfer 17 Medi 2019.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565